**<u>Pwyllgor Datblygu Economaidd</u>** **EDC 06-01 (min)**

**COFNODION**

**Dyddiad** 4 Ebrill 01
**Amser** 2.00-5.30pm
**Lleoliad** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Val Feld (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Derek Jones | Cyfarwyddwr Materion Economaidd |
| David Pritchard | Cyfarwyddwr yr Adran Ddatblygu Economaidd |
| Emyr Roberts | Yr Adran Bolisi Economaidd |
| Roger Bonehill | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Graham Johnson | Yr Adran Bolisi Economaidd |

**Cyfranwyr Allanol**

| | |
|---|---|
| Victoria Winckler | Pennaeth Materion Economaidd ac Amgylcheddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Paul Roberts | Prif Swyddog Datblygu Economaidd Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iain Willox | WDA |
| Jonathan Jones | Prif Weithredwr Bwrdd Croeso Cymru |
| Roger Pride | Bwrdd Croeso Cymru |

| | |
|---|---|
| Roger Johnson | Yr Awdurdod Twristiaeth Prydeinig |
| Ann Watkin | Pennaeth Polisi Gwledig y WDA |
| Wynfford James | Cyfarwyddwr, Amaeth Bwyd y WDA |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1:** Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod a gwahodd pobl i siarad yn y Gymraeg neu’r Saesneg.
2. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy egluro bod y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd wedi gorfod mynd i Lundain ar gyfer cyfarfod o’r Tasglu Gwledig yn Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a’r Rhanbarthau. Gobeithiai ddod at y Pwyllgor Datblygu Economaidd erbyn tua 3.30 p.m. ac oherwydd hynny yr oedd wedi newid trefn yr Agenda o’r hyn a oedd yn arferol. Yr oedd y Dirprwy Weinidog yn aelod o Bwyllgor a oedd yr cyfarfod yr un pryd felly ni allai ef fod yn bresennol ychwaith.
3. Cyfeiriodd y Cadeirydd at adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o addysg uwch. Dywedodd ei bod wedi derbyn llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw’n awgrymu y dylent hwy a’r Pwyllgor Datblygu Economaidd ystyried cyfarfod ar y cyd yn yr haf yn ystod y cyfnod gwerthuso. Cytunodd yr Aelodau â’r dull gweithredu hwn a nodi eu bod yn teimlo y dylid cynnal y cyfarfod mor fuan â phosibl ar ôl i’r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ddechrau gwerthuso’r dystiolaeth.
4. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol ar y cynnydd ‘canlyniadol’ o £100 miliwn yn ôl fformiwla Barnett. Dywedodd nad oedd consensws pendant ar ôl neges e-bost y Clerc at yr Aelodau ynghylch a ddylid cyflwyno cais ac, os dylid, am beth. Awgrymodd, a chytunodd yr Aelodau, y byddai’n dilyn yr awgrym a wnaethpwyd gan Aelod y dylem ganfod o ble yr oedd y cynnydd ‘canlyniadol’ wedi codi. Wedyn byddai hi a’r Clerc yn llunio cynigion i’w hystyried gan yr Aelodau.
   **[Cam Gweithredu: Y Clerc/Y Cadeirydd]**
5. Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn llythyr oddi wrth Ymddiriedolaeth y Bannau ynghylch rhoi cyfarwyddyd i’r Pwyllgor. Awgrymodd y gallai’r Pwyllgor gyfarfod â’r Grwp hwn yn ddiweddarach pan oeddent yn ystyried canlyniadau

economaidd tymor hir y cychwyniad o glwy'r traed a'r genau.

**Eitem 2:** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

1. Croesawodd y Cadeirydd Victoria Winckler a Paul Roberts ac atgoffaodd yr Aelodau fod y drafodaeth hon yn rhan o'r rhaglen barhaus i gynnwys cyrff allweddol ym mhroses y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol ac ystyried datblygiad economïau lleol. Cynigiodd Victoria Winckler ymddiheuriadau ar ran llefarydd a dirprwy lefarydd y Gymdeithas am na allent bod yn bresennol yn y cyfarfod.
2. Dechreuodd Paul Roberts drwy egluro bod Awdurdodau Lleol yn cael effaith eang ar Ddatblygu Economaidd, a bod pob rhan o wasanaethau Awdurdodau Lleol yn gysylltiedig mewn rhyw fodd. Dywedodd mai'r hyn a oedd yn gweithio oedd darparu lleol, mewn partneriaeth, gan weithio oddi mewn i'r cyllidebau a'r targedau a ddatganolwyd. Yr oedd yn bwysig darparu gwasanaethau'n lleol gan fod yr Awdurdodau Lleol yn adnabod eu cwsmeriaid a phwysleisiodd fod system ar waith eisoes sydd yn gweithio.
3. Dywedodd Victoria Winckler fod angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymryd i ystyriaeth a chydnabod bod darparu lleol yn gymorth i gyflawni ei bolisïau ei hun, a'i fod hefyd yn helpu i hybu perchnogaeth leol. Dylai'r Cynulliad gydnabod rôl mentrau lleol mewn datblygu economaidd a dylid darparu rhagor o gyllid ar gyfer mentrau adfywio lleol. Ychwanegodd fod Awdurdodau Lleol yn chwarae rôl holl bwysig wrth ymateb i'r cychwyniad o glwy'r traed a'r genau a'u bod eisoes yn gweithio gyda microfusnesau sydd y profi anhawster.
4. Dywedodd mai'r weledigaeth a oedd ganddynt oedd un o rôl arweinyddiaeth gymunedol yn gweithio gyda mudiadau lleol. Dylid cael un dull gweithredu cytunedig ar gyfer ardal (yn cynnwys y WDA, Bwrdd Croeso Cymru, a.y.b.) ac yr oedd angen gosod rôl yr awdurdodau lleol ar ben hynny. Ychwanegodd y dylai Awdurdodau Lleol ac asiantaethau gael mwy o hyblygrwydd fel eu bod yn gallu ymateb i anghenion lleol. Er ei bod yn bosibl y byddai rhywfaint o ddyblygu mewn cynlluniau lleol ac y gellid cael enwau a brandiau gwahanol arnynt, nid oedd hynny o bwys os yr un oedd y nodau.
5. Yn y drafodaeth gyffredinol codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mynegodd rhai Aelodau bryder ynghylch y nifer mawr o gynlluniau cymorth busnes a ddarperir gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru a theimlent fod hynny'n arwain at ryw fath o loteri ar sail codau post. Yr oedd y system yn ddadunol ac yn creu cystadlu rhwng awdurdodau. Dywedodd Paul Roberts nad oeddent yn gweld cynhyrchion ariannol yn brif ffurf ar gymorth ar gyfer datblygu economaidd.

- Dywedodd y Cadeirydd fod angen i Awdurdodau Lleol a Chyllid Cymru eistedd ac ystyried sut y gall eu cynhyrchion ategu ei gilydd yn hytrach na dyblygu ei gilydd.

- Yr oedd pryder hefyd fod ardaloedd a chanddynt amodau cymdeithasol-economaidd tebyg iawn yn dal i fod â gwahaniaethau mawr iawn o ran cynlluniau. Nododd Aelod y dylid cael cydweithredu mewn ardaloedd â phroblemau tebyg a bod hyn yn tynnu sylw at yr angen am ddimensiwn rhanbarthol oddi mewn i'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mai'r hyn yr oedd ei angen ar lefel ranbarthol oedd cynllun busnes gyda thargedau pendant, ffynonellau cyllid ac eglurdeb o ran cyfrifoldeb, yn hytrach na strategaeth.

- Eglurodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod enghreifftiau da o Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda'i gilydd a chydag Awdurdodau Lleol cyfagos yn Lloegr. Ar hyn o bryd maent yn datblygu dangosyddion perfformiad ar gyfer datblygu economaidd fel y gallant fesur perfformiad yn gyson. Cyngor Sir Benfro a oedd yn arwain ar hyn.

- Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sylw at y ffaith bod y Llywodraeth yng Nghymru wedi rhoi rôl arweinyddiaeth gymunedol i'r 22 o Awdurdodau Lleol. Ni all cyrff mawr i Gymru gyfan ateb anghenion pobl leol. Yr oedd Awdurdodau Lleol yn ymatebol ac yn rhoi hyblygrwydd ac amrywiaeth. Er eu bod yn cydnabod y pryderon ynghylch nifer y cynlluniau cymorth busnes a oedd ar gael, tynasant sylw at y ffaith nad oedd datblygu economaidd yn ymwneud ä grantiau a chynlluniau'n unig. Yr oedd trafnidiaeth, cynlluniau a medrau hefyd yn holl bwysig i ddatblygu economaidd ac mae Awdurdodau Lleol yn dod â'r rhain at ei gilydd. Dylid edrych ar gynlluniau cymorth busnes fel eising ar ben y deisen.

- Gofynnodd Aelod am i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wrth ymateb i ymgynghoriad y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol, ganolbwyntio ar feysydd trafnidiaeth, cynllunio a medrau, ac ystyried a oedd yr adnoddau oddi wrth y Cynulliad yn ddigonol i gyrraedd y targedau a gynigid oddi mewn i'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Atebodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nad oeddent eto wedi cwblhau asesiad o'r adnoddau ar gyfer y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol ond yr oedd yn amlwg bod yr adnoddau i drafnidiaeth yn arbennig yn rhy isel. Yr oedd diffyg o ran arian ychwanegol ar gyfer cynllunio ers amser hir hefyd ac yr oedd datblygu yn y maes hwn wedi'i ymestyn yn ddifrifol. Rhoesant gadarnhad y byddent yn ymateb i'r ymgynghoriad mewn pryd ar gyfer y terfyn amser ym Mai.
- Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, er bod rôl i gyrff rhanbarthol mewn perthynas â materion trawsffiniol, mai gan y lefel leol yr oedd pobl yn disgwyl cael eu gwasanaethau. Dylai'r Awdurdodau Lleol ganolbwyntio ar hynny'n bennaf.

6. Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd nad oedd amheuaeth nad oedd rôl allweddol gan Awdurdodau Lleol a'u bod yn ysgogwyr allweddol i ddatblygu economaidd ar lefel leol. Y cwestiwn oedd sut i gyd-drefnu rhwng y lefelau lleol a rhanbarthol a gobeithiai y byddai'r swyddogion yn ystyried hynny'n ofalus oddi

mewn i gyd-destun y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Cadarnhaodd y swyddogion fod y Gweinidog wedi sefydlu grwp adolygu ar gyfer ariannu haen 3 a fyddai'n cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ychwanegodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig, er bod y cyllidebau ar gyfer adfywio lleol wedi mynd at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, fod gwaith yn cael ei wneud yn y maes hwn i gyfrannu i'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol a gofynnodd i'r swyddogion ystyried gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau bod hynny'n digwydd. **[Cam Gweithredu: David Pritchard]** Diolchodd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am eu cyfraniad a dywedodd ei bod yn bwysig cael deialog barhaus gyda hwy a chyda'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Eitem 3 -** Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth

1. Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr ystyriaeth flaenorol a roddwyd i'r mater hwn gan y Pwyllgor - y tro diwethaf oedd 1 Tachwedd 2000. Dywedodd fod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r cynllun mewn egwyddor a nododd y dylai'r gwaith ar hyn barhau ond gofynnodd am fwy o eglurder ar nifer o bwyntiau.
2. Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd David Pritchard fod llawer o waith wedi'i wneud ar y prosiect gyda'r cyrff perthnasol ers y cyfarfod ar 1 Tachwedd. Y cam nesaf oedd datblygu cynllun gweithredu llawn. Yr oedd hyn ar y gweill a'u nod oedd rhoi adroddiad ar gynnydd a ganolbwyntiai ar ganlyniadau i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd bob chwe mis. Byddai'r pwyslais ar gyfer hynny ar yr eithriadau yn hytrach nag ar ymdrin â holl ystod y cynllun.
3. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch lle'r oedd y rheolaeth gyffredinol ar y prosiect, dywedodd Iain Willox fod y Pwyllgor Llywio wedi troi'n banel gweithredu. Yr oedd corff arweiniol dynodedig ar gyfer pob maes gweithgaredd ac yr oedd y rhain yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni'r cynllun. Yr oedd yr atodiad i'r papur yn rhestru'r cynnydd ar bob un o'r themâu. Dywedodd fod y prosiect yn cael ei gyflawni drwy gyfres o bartneriaethau gweithredol gydag enwebai ym mhob un yn gweithio i gydlynu a chryfhau'r cynllun busnes ers y drafodaeth flaenorol arno.
4. Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar faint y prosiect - rhoddwyd ffigur o £235 miliwn fel ei gost gyffredinol a chydnabuasant fod hyn yn llawer iawn o arian. Yr oeddent yn ei chael yn anodd gweld o'r papurau faint o hynny a ddeuai o'r cyllidebau presennol, h.y. arian a fyddai wedi'i wario beth bynnag, a pha faint a fyddai'n arian newydd ar gyfer gweithgareddau newydd. Gofynnodd yr Aelodau am bapur i egluro hynny. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd/ David Pritchard]**
5. Gofynnodd yr Aelodau hefyd sut yr oedd y Cynulliad yn cysylltu â'r rhaglen a phwy oedd yn gyfrifol am swm arian mor fawr. Dymunent wybod hefyd beth yr oedd y Grwp Gweithredu'n ei geisio gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd.

6. Cyfeiriodd yr Aelodau at yr anhawster posibl wrth fonitro perfformiad gyda'r cynllun, a cheisiasant wybodaeth ar y llinell sylfaen y câi'r canlyniadau eu hasesu yn ei herbyn.
7. Wrth ymateb i hyn, dywedodd Iain Willox fod rhywfaint o'r cynllun na ellid ei weithredu, fel y pwysleisiwyd o'r blaen, hyd nes yr oedd yr adolygiad o gymorth busnes wedi'i gwblhau. Cydnabu fod y swm o arian dan sylw yn fawr ond felly hefyd yr oedd maint y bwlch mewn perfformiad economaidd rhwng Cymru a'r DU. Os ydym o ddifrif ynghylch ymdrin â hynny, barnai fod gwariant ar y lefel hon yn angenrheidiol.
8. Cydnabu'r angen am ddata dibynadwy i asesu'r perfformiad gyda'r cynllun yn eu herbyn. Yr oedd gwaith ar y gweill gyda chyrff allanol ar ddatblygu mesurau. Aeth ymlaen i ddweud mai bwriad rhan o'r rhaglen oedd hybu ymwybyddiaeth a bod hyn yn weithgaredd na fyddai ond yn arwain at ganlyniadau dros nifer o flynyddoedd. O ran hybu entrepreneuriaeth mewn ysgolion, yr oeddent yn gweithio'n agos gydag ACCAC ynghylch sut i gyflwyno hyn yn y cwricwlwm ysgolion heb greu pwnc newydd.
9. Ynghylch rheoli'r prosiect, pwysleisiodd David Pritchard fod y trefniadau atebolrwydd yn gadarn. Cyn hir byddai Roger Jones o Penn Pharmaceuticals yn dod yn gadeirydd Grwp Llywio'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth gan ddilyn David Latham. Gan y Grwp hwn yr oedd y cyfrifoldeb cyffredinol dros hybu'r cynllun. Byddai Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1 hefyd yn monitro prosiectau a oedd yn ceisio cyllid o'r ffynhonnell honno. Ar ben hynny, byddai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn cadw llygad barcud ar y prosiect ac yr oedd gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ddiddordeb personol ynddo a chyfrifoldeb drosto.
10. Dywedodd Aelod ei fod yn teimlo bod yn rhaid i'r Cynllun ganolbwyntio ar 'weithredu' a dylent geisio mesur ei lwyddiant yn nhermau nifer y busnesau a gychwynnwyd o ganlyniad iddo ac yn nhermau gweithgaredd a chanlyniadau. Y cwestiwn allweddol oedd a yw'n arwain at gynnydd yn nifer y busnesau newydd yng Nghymru? Dywedodd Aelod arall ei bod yn bwysig, er bod cyfeiriad at yr hyn a oedd yn digwydd yn Lloegr, fod ystyriaeth o'r meincnodau a oedd i'w dilyn mewn mannau eraill yn Ewrop ac, yn wir, yn y byd. Mewn ymateb i'r olaf, cyfeiriodd Iain Willox at waith a wnaethpwyd gan Ysgol Fusnes Llundain a ddangosai fod Israel a Chanada yn berfformwyr rhagorol yn hyn o beth.
11. Wrth grynhoi'r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn gwylio'r cynnydd gyda diddordeb ac edrychai ymlaen at dderbyn adroddiadau rheolaidd ar y Cynllun gan y Gweinidog. Nododd fod yr Aelodau'n awyddus ynghylch cyflawni'r targedau ar gyfer cynnyrch mewnwladol crynswth Cymru ac yr oedd yn holl bwysig bod y Cynllun yn arwain at gynnydd mewn perfformiad yn hyn o beth.

**Eitem 4:** Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth

1. Cytunodd yr Aelodau fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.
2. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau, mewn perthynas â'r camau gweithredu a

oedd ar ôl, eitem 4 o’r cyfarfod blaenorol, fod Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain wedi cysylltu â hi ac y bydd yn siarad â hwy ynghylch y modd y mae’r Cynulliad yn rhyngweithio â’r sector preifat. Dywedodd hefyd fod pwyllgor polisi’r Pwyllgor Monitro Rhaglen yn paratoi papur ar y rhan a gymerir gan y sector preifat a bydd hwn ar gael i’r Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi i’r Pwyllgor Monitro Rhaglen ei weld.

**Eitem 5:** Effaith y cychwyniad o glwy’r traed a’r genau ar yr economi anamaethyddol.

1. Cychwynnodd y Gweinidog yr eitem drwy ddiolch i bawb o’r WDA, Bwrdd Croeso Cymru a’r Awdurdod Twristiaeth Prydeinig am ddod a hefyd am ddarparu gwybodaeth i’r Pwyllgor ar rybudd mor fyr.
2. Diolchodd i Roger Johnson o’r Awdurdod Twristiaeth Prydeinig am ei ymweliad diweddar â’r Iseldiroedd a’r Almaen a oedd wedi rhoi cyfle iddo siarad â staff yr Awdurdod Twristiaeth Prydeinig a gweld y problemau mewn twristiaeth o safbwynt y rhai sydd yn ceisio denu twristiaid o dramor.
3. Yr oedd newydd gyrraedd o gyfarfod o’r Tasglu Gwledig yn Llundain a thynnodd sylw at rai o’r materion a gododd o’r cyfarfod hwnnw a nodi hefyd gamau eraill a gymerir i helpu busnesau yr amharwyd arnynt.

- Estynnir y Gwarant Benthyciadau i Fusnesau Bach i gynnwys busnesau twristiaeth ac adwerthu sydd yn dioddef o ganlyniad i’r clefyd a darperir mwy o wybodaeth yn y dyddiau nesaf hyn.

- Paratoir rhybuddion llwybr troed safonol i’w defnyddio o gwmpas Cymru sydd yn rhoi esboniadau eglur.

- Yr oedd y gylchfa ragod rhwng anifeiliaid a phobl wedi’i lleihau i 10 metr o 100 metr.

- Yn groes i’r hyn a dybid, mae 80% o’r atyniadau yn y DU yn aros yn agored ac mae 90% o’r digwyddiadau arfaethedig i’w cynnal o hyd.

- Mae Aelodau o’r Cabinet i fod i ymweld â chyrchfannau twristaidd yng Nghymru i roi cyhoeddusrwydd i’r hyn sydd yn agored.

- Mae’r Adran Nawdd Cymdeithasol yn cynhyrchu taflen arweiniad newydd i rai sydd yn ddi-waith neu’n gorfod gweithio llai o oriau.

- Mae’r Gweinidog yn cyfarfod â’r Banciau a’r Yswirwyr eto a hefyd â’r Cyfleustodau i drafod y modd y gallant helpu eu cwsmeriaid. Mae hefyd wedi trefnu i uwch swyddog o’r Trysorlys fod yn bresennol yn y cyfarfod â’r Bancwyr a’r Yswirwyr.

- Yr wythnos yma, cyhoeddodd Edwina Hart y bydd darpariaeth o dan gynllun Bellwin i alluogi Awdurdodau Lleol i adfer costau yr ânt iddynt o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau gan gynnwys ffensio i ganiatáu agor mwy o ardaloedd a llwybrau cerdded allweddol.

- Yr oedd Bwrdd Croeso Cymru wedi gweld cynnydd mawr yn yr ymweliadau â'i wefan a'r galwadau i'w linell boeth ers 17 Mawrth a'r cynnydd yn ei ymgyrch hysbysebu.

- Bydd y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn siarad â gwledydd a llywodraethau rhanbarthol dramor ynghylch ymweliadau gan ysgolion ac mae'r Cynulliad i fod i adolygu ei gyngor i ysgolion i sicrhau bod ymweliadau'n parhau.

- Mae'r Gweinidog i fod yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf erioed o Weinidogion twristiaeth y DU ar 25 Ebrill.

    1. Wedyn gwahoddodd y Gweinidog y cynrychiolwyr o Fwrdd Croeso Cymru, yr Awdurdod Twristiaeth Prydeinig a'r WDA i egluro i'r Pwyllgor y gwaith yr oeddent yn ei wneud ar hyn o bryd.
    2. Dywedodd Bwrdd Croeso Cymru mai eu prif amcan oedd cael arian i ddwylo'r busnesau hynny sydd yn dioddef a bod Bwrdd Croeso Cymru ymhell ar y blaen i awdurdodau twristiaeth rhanbarthol Lloegr a'r Alban. Er eu bod yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Twristiaeth Prydeinig i gynnig tawelwch meddwl dramor, yn y farchnad gartref maent mewn cystadleuaeth â'r awdurdodau twristiaeth rhanbarthol.
    3. Cyfeiriodd at gyfarfod diweddar yn Llandrindod a dywedodd fod busnesau mewn ardaloedd heintiedig yn bryderus ynghylch pobl a oedd yn dychwelyd i gefn gwlad tra oedd y clefyd yn dal i ledaenu.
    4. Nododd yr Awdurdod Twristiaeth Prydeinig dri maes allweddol yr oeddent yn canolbwyntio arnynt ar hyn o bryd.

- Ceisio sicrhau bod gwybodaeth gywir, onest a ffeithiol yn mynd allan gan fod y graddau a'r math o adroddiadau dramor yn anghywir ar y gorau.

- Mae'r Awdurdod Twristiaeth Prydeinig yn mabwysiadu dull marchnata tymor byr sydd yn cyflwyno negesuon cadarnhaol ynghylch faint sydd yn agored. Maent yn cynnal uwchgynhadledd i arweinwyr teithio'r byd ymhen pythefnos, a ddaw â chynrychiolwyr o'r prif farchnadoedd i deithio'r DU a dychwelyd â'r negeseuon iawn.

- Yn y canoldymor byddant mewn sefyllfa, wedi i'r argyfwng ddechrau gostwng, i lansio ymgyrch hysbysebu byd-eang.

    1. Dywedodd y WDA eu bod yn gweithio'n agos gyda'r partneriaethau gwledig gan edrych ar atebion tymor byr a thymor hir. Fodd bynnag, mae ganddynt fwy o ran

mewn cynlluniau tymor hir a dywedasant fod effaith y cychwyniad ar yr economi wledig wedi amlygu'r angen am amrywiaethu.

2. Yn y drafodaeth gyffredinol nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Yr Awdurdodau Lleol sydd yn gyfrifol am ailagor a ffensio llwybrau troed. Mynegodd rhai Aelodau bryder nad oedd yr Awdurdodau Lleol, pan oeddent wedi siarad â hwy, yn gwybod am y canllawiau diweddaraf. Eglurodd y Gweinidog mai'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth oedd yn gyfrifol yn awr am siarad ag Awdurdodau Lleol am lwybrau troed. Ychwanegodd fod disgwyl y byddai rhannau helaeth o lwybrau troed ar yr arfordir yn agored erbyn y Pasg ac os oedd yr Aelodau'n gwybod am unrhyw ddulliau gweithredu anghyson gan Awdurdodau Lleol, dylent roi gwybod i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd.

- Mynegodd Aelod bryder ynghylch lefel y cyllid a oedd ar gael i Fwrdd Croeso Cymru ar gyfer marchnata a dywedodd y Gweinidog fod £16 miliwn ar gael gan Fwrdd Croeso Cymru, gan gynnwys prosiect Amcan 1, ar gyfer marchnata. Cadarnhaodd y byddai'r Cynulliad yn gwneud rhagor os deuai'n angenrheidiol, ond yr oedd yn anodd barnu nes gwybod yr holl effaith.

- Nododd sawl Aelod fod angen i'r cyfryngau Prydeinig fod yn fwy cadarnhaol. Dywedodd Aelod mai'r gwir oedd bod gennym glefyd sydd yn ymledu ac nad oedd yn fawr o syndod bod pobl dramor yn derbyn y neges hon. Mae angen strategaeth sydd yn ymdrin â realiti yn hytrach na chanfyddiad. Rhaid inni hefyd gael strategaeth adfer er mwyn ailgodi'r diwydiant.

- Dywedodd Aelod na welsom erioed y fath drychineb â hyn mewn datblygu gwledig a bod hynny wedi'i waethygu ymhellach gan y cyhoeddiad diweddar ynghylch cnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru. Ychwanegodd na fyddai'n bosibl i'r Cynulliad fwrw ymlaen â dadleuon pendant gyda'r Trosorlys os nad oedd y data perthnasol ganddo. Cadarnhaodd y Gweinidog fod swyddog o'r Trysorlys i fod yn bresennol yn y cyfarfod â'r Banciau er mwyn cael gwybodaeth o lygad y ffynnon am yr hyn sydd yn digwydd i fusnesau. Dywedodd hefyd fod Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn cynnal astudiaeth effaith ar hyn o bryd.

- Ar fater iawndal, dywedodd y Gweinidog fod rhyddhad o'r trethi ar sail cyni ar gael i bob busnes lle y mae prawf bod colledion yn ganlyniad i glwy'r traed a'r genau. Rhoddir canllawiau pendant drwy hysbysebu, ac maent eisoes wedi'u darparu i awdurdodau lleol.

1. Ychwanegodd Bwrdd Croeso Cymru y canlynol mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau:

- Dywedasant eu bod yn casglu gwybodaeth am golledion ar hyn o bryd, ond yn eu barn

hwy bydd angen o leiaf £10 miliwn i ail-lansio'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ar ôl i'r argyfwng ddod i ben. Yr oeddent yn llunio cynlluniau adfer tymor byr, canoldymor a thymor hir, ond anodd yw asesu'n llawn nes bydd yr argyfwng ar ben.

- Yr oeddent yn bryderus ynghylch y safbwynt a gyfleir gan y cyfryngau Prydeinig ac yr oeddent wedi rhoi sylw i hyn gyda'r Prif Weinidog y diwrnod cynt. Yr oedd wedi gofyn i'r cyfryngau gyflwyno barn gytbwys.

- Yr oedd cwestiwn ynghylch sut y maent yn ymwneud â busnesau mewn marchnata gan y byddai llawer o'r arian a wariwyd gan unigolion y flwyddyn yma wedi'i wastraffu.

- Fel arfer byddai grymoedd y farchnad yn mynnu mai'r busnesau gwannaf sydd yn methu ond mae'r problemau presennol yn golygu y byddai rhai o'r busnesau gwell a oedd wedi buddsoddi, benthyca a hyfforddi yn ei chael yn fwyaf anodd parhau. Yr oedd Bwrdd Croeso Cymru'n cynnig cyngor i'r sectorau hyn.

11. Dywedodd y WDA eu bod yn gweithio'n agos gyda Cyswllt Busnes gan eu bod yn cwrdd â busnesau bach ac maent yn ceisio siarad â nifer o gwmnïau nad ydynt mewn twristiaeth fel cludwyr a chyflenwyr porthiant anifeiliaid. Gallent gynnig rôl monitro ond y wir broblem oedd bod arian yn prinhau ac yn y maes hwn ni allai'r WDA gynnig cymorth.
12. Dywedasant hefyd fod y ffaith bod partneriaeth yn bod eisoes yn y sector Amaeth-bwyd yn golygu bod y fframwaith cymorth yno'n barod ac yr oedd busnesau'n elwa ar hyn.
13. Cadarnhaodd y swyddogion y byddent yn cwrdd drannoeth â Cyswllt Busnes a grwpiau perthnasol eraill ac yr oeddent yn cynhyrchu taflen a oedd wedi'i hanelu at bob busnes a amharwyd yn dweud wrthynt i ble y dylent fynd i gael cymorth.
14. Dywedodd yr Awdurdod Twristiaeth Prydeinig eu bod wedi datblygu eu cynlluniau ar y cyd â Bwrdd Croeso Cymru. Yn y canoldymor yr oeddent yn canolbwyntio ar ymarferion cysylltiadau cyhoeddus cadarnhaol. Yr oeddent yn proffilio eu cronfa ddata o ddwy filiwn o enwau rhai a oedd wedi ymweld â Phrydain yn y gorffennol a dylai hyn arwain at gronfa ddata ychwanegol o wyth miliwn o bobl i'w cynnwys mewn ymgyrch e-bostio.
15. Wrth grynhoi, diolchodd y Cadeirydd i bawb am roi o'u hamser a dywedodd fod hyn yn fater y byddai'r Pwyllgor yn dymuno dod yn ôl ato. Tynnodd sylw at y materion allweddol canlynol:

    - Yr oedd yn bwysig bod yn rhagweithiol a rhoi gwybodaeth i bobl yn hytrach na disgwyl iddynt hwy ddod ymlaen.
    - Yr oedd yn bwysig dal ein gafael yn ein marchnad gartref a chefnogi busnesau lleol.
    - Yr oedd angen i'r gwaith ar y cynllun adfer fod yn barhaus a dylai gael ei ddwyn at

ei gilydd gan yr holl bartneriaid sydd yn ymwneud â’r maes hwn.

**Eitem 6:** Adroddiad y Gweinidog

1. Oherwydd cyfyngiadau amser ni roddodd y Gweinidog ei gyflwyniad arferol ar lafar i’w adroddiad ond defnyddiodd yr amser i ateb cwestiynau oddi wrth yr Aelodau.
2. Cyfeiriodd Aelod at dystiolaeth a roddwyd gan Tony Pedder yn y cyfarfod diweddar â Corus lle y dywedodd nad oedd aelod wledydd y Gymdeithas Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn cynyddu eu gallu cynhyrchu dur. Yr oedd yr Aelod wedi edrych ar Brif Ddangosyddion Economaidd diweddaraf y Gymdeithas Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ac wedi ymgynghori â’r Sefydliad Haearn a Dur Rhyngwladol. Yr oedd hynny wedi cadarnhau bod 19 o blith y yr 20 cynhyrchydd dur mwyaf yn y byd wedi cynhyrchu mwy o ddur yn 2000 nag yn 1999 - yr unig eithriad oedd y DU.
3. Yr oedd Aelod wedi nodi bod tystiolaeth o golledion swyddi o ganlyniad i gaffaeliad Glas Cymru mewn ardaloedd heblaw de Cymru. Dywedodd y byddai’n ysgrifennu at y Cadeirydd ynghylch hynny.
4. Gofynnwyd i’r Gweinidog adrodd ar ddau gontract a ddyfarnwyd gan Glas Cymru i United Utilities a Thames Water. Yr oedd y rhain yn ddau gontract tymor hir a oedd wedi’u dyfarnu i gwmnïau y tu allan i Gymru er gwaethaf y sicrhad a roddwyd gan y cwmni. Nodwyd bod canlyniad o’r math hwn yn dangos yn eglur mor bwysig ydoedd i’r Pwyllgor beidio â chefnogi unrhyw gais unigol mewn sefyllfa o’r fath.
5. Gofynnodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd am i’r cofnod ddangos iddo ddweud bod ei ferch yn gweithio i Hyder Industries, a brynwyd yn ddiweddar gan United Utilities. O ganlyniad, nid oedd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth flaenorol a byddai’n gofyn i’w swyddogion ddarparu’r adroddiad a geisiwyd. **[Cam Gweithredu: David Pritchard]**
6. Tynnwyd sylw at sylwadau a wnaethpwyd am ddogfen ymgynghorol y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac a adroddwyd yn y Newport Argus ar 28 Mawrth.
7. Nododd a chroesawodd Aelod y cymorth parhaus a gynigid i KTH yn Llanidloes er mwyn helpu’r gwaith i oroesi. Gobeithiai y byddai’r Gweinidog yn cynnig cymorth tebyg i Dewhirst yn Abergwaun.
8. Cyfeiriwyd at golli 100 o swyddi yn Hitachi ddydd Gwener. Er bod y colledion hyn yn ddisgwyliedig, yr oedd y Cwmni’n parhau i fod yn gyflogwr pwysig yng Nghwm Cynon ac yr oedd arno angen cymorth parhaus gan y Gweinidog.